

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar yr 2ail o Chwefror 2021 am 4.30pm

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Pwyllgor Ieuenctid: Phoenix (6.5), Rory (cysylltiad gwael), Habeba (6.5), Sara D (7), Lili (7.5), Matt (anawsterau cysylltu), Sarah Hoss (5)

Staff: Suzanne (7), Tom (8.5), Graham (7.5),

Ymddiheuriadau: Libby, Adam

Materion a Drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewngofnodi ac allangofnodi fel uchod mewn cromfachau. Roedd Tom wedi treialu offer newydd drwy ddefnyddio Mural. Roedd wedi gweithio i rai ond nid i'r rhai oedd yn cael problemau technegol.	
2	Diweddariad APCAP: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Graham mai prin oedd y gwaith yn yr awyr agored a wnaed oherwydd y cyfnod clo. Serch hynny roedd y staff bellach yn mentro allan i helpu gyda'r gwaith o gynnal yr ardaloedd o risg a achoswyd gan lifogydd/tirlithriadau ac ati i sicrhau diogelwch y trigolion lleol sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar eu stepen drws.Roedd y staff wedi gweithio'n galed i gyflwyno cais i'r Lloeri Genedlaethol i gynnal prosiect 'Gwreiddiau i Adferiad' i gynorthwyo iechyd meddwl pobl drwy ddefnyddio'r awyr agored yn eu hardal leol. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar waith y Prosiect Llwybrau.	https://www.gov.uk/register-to-vote
3	Diweddariad Ieuenctid: <ul style="list-style-type: none">Newid Hinsawdd ac Aseiad Risg Amgylcheddol Roedd Suzanne wedi trafod y cyfle i'r aelodau ymgysylltu â'r grŵp Newid Hinsawdd ac Aseiad Risg Amgylcheddol a deall mwy am eu gwaith. Is grŵp yw hwn o Fwrdd Gwasanaethau Sir Benfro.	Tom: Anfon gwybodaeth ymlaen at bob Aelod. Roedd diddordeb gan Lili i ddarganfod mwy. Suzanne i anfon gwybodaeth ati. Gan fod y cyfarfodydd yn llawn jargon ac yn anodd i'w dilyn, bydd Suzanne yn trefnu bod aelod o'r CCERA yn siarad â'r grŵp.

	<ul style="list-style-type: none"> • Pleidleisio yn 16 oed – cyfle i bobl ifanc 16/17 oed i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd a defnyddio’u llais i gael dweud eu dweud ar faterion sy’n bwysig iddynt a gwneud y rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn atebol. • Ymgyrch Gwneud eich Marc – un o’r 3 mater a glustnodwyd oedd cymdeithas ddi-blastig. Mae hwn yn gyfle i’r aelodau gymryd rhan yn yr ymgyrch os yw o ddiddordeb iddynt. • Arolwg o Iechyd Emosiynol a Llesiant – Gofynnodd Suzanne i’r aelodau a fyddent yn barod i lenwi’r arolwg sy’n adolygu’r gwasanaethau a gynigir ar hyn bryd yn Sir Benfro. Byddai adborth ar gynllun a chynnwys yr arolwg yn gymorth mawr. 	<p>https://www.gov.uk/register-to-vote</p> <p>https://2u6szgq3e9x2hmfuy16guf8q-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2021/01/2020-v2-Make-Your-Mark-Results-with-Infographics.pdf</p> <p>https://www.surveymonkey.com/r/L76G269</p>
4	<p>Diweddariad yr aelodau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynghrair Economaidd Llesiant Roedd Pheonix a Lil wedi mynychu fforwm ieuenctid Cymru y Gynghrair ar yr 16eg o Ionawr. Adborth gan Lil: dychmygu petaent yn sefyll am sedd yn y senedd beth fyddai eu haddewidion; casglu gwybodaeth ar themâu cyffredin; trafod sgysiau a gyhoeddwyd ar bodlediadau. Cynlluniau i greu gweithgor a pharhau i ymgysylltu â phobl ifanc. Y Gynghrair â diddordeb yn y gwaith y mae Pwyllgor Ieuenctid y Parc wedi’i wneud ar eu maniffesto ieuenctid a’r cyfle i baru’r grwpiau. • Parciau Cenedlaethol y DU Adolygu’r Cod Cefn Gwlad – roedd Libby wedi mynychu’r cyfarfod oedd yn edrych ar adolygu’r Cod Cefn Gwlad yn Lloegr – bydd Libby yn rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf. • Cyfoeth Naturiol Cymru – mae cyfle i’r aelodau gymryd rhan yn yr adolygiad o’r Cod Cefn Gwlad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Roedd Lil, Pheonix, Habeba a Sara i gyd â diddordeb. 	<p>Tom: Cynnal cysylltiadau â’r Gynghrair.</p> <p>Tom i ddilyn hyn ymhellach.</p>
5	<p>Adolygu’r pwyllgor –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Tom wedi crynhoi dadansoddiad SWOT (Cryfderau, 	<p>Tom: sicrhau bod pob aelod yn derbyn copi o’r dadansoddiad SWOT.</p>

	<p>Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) drwy gysylltu â phob aelod yn unigol a chasglu eu barn am y gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aeth y grŵp i wahanol ystafelloedd i drafod yr arolwg. Yr adborth oedd • Y rolau ddim o reidrwydd yn ddefnyddiol. Cyfeiriodd Suzanne at y modd y mae'r cynulliad ieuencid yn cyflawni rôl y cadeirydd, a barnai'r aelodau y gallai hyn fod yn ddull defnyddiol. • Y grŵp yn gweld bod yr ap Murals braidd yn drafferthus ond yn gweld sut allai nodiadau 'post it' fod yn ddefnyddiol. • Is grŵp – dim sylwadau. • Basecamp – yn haws cael is grwpiau petai mwy o bobl yn cymryd rhan. • Defnyddio arolwg syml i grisialu adborth ar 'gyfleoedd / awgrymiadau' i bobl ifanc ar gyfer cael ymateb gynted â phosibl. 	<p>Oherwydd y nifer cyfyngedig cytunwyd i ddsbarthu arolwg pleidleisio ar awgrymiadau a wneir cyn y cyfarfod nesaf, ac wedyn canolbwyntio arnynt yn y cyfarfod.</p> <p>Trafod yn y cyfarfod nesaf a phleidleisio ar y mater.</p> <p>Tom i gymryd camau gweithredu.</p>
<p>7</p>	<p>Unrhyw fater arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Insight 2020 • Senedd y DU â thîm allgymorth. • Y prosiect Cyfranogiad Pobl Ifanc Cymru yn rhedeg cynllun arolygwyr ifanc. • Trawsnewid trefi yn cynnal cyfarfod nos lau am 6pm. • Fideo ar newid yn yr hinsawdd. • Grŵp Sgiliau Gwneud Penderfyniadau – cyfle i'r aelodau dderbyn hyfforddiant ar yr 17eg o Chwefror am 11-1pm ynghyd â grwpiau eraill o aelodau lleol. 	<p>Tom i rannu'r ddolen gyswllt. Tom i gyflwyno mwy o wybodaeth. Tom i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Tom i anfon gwahoddiad i Lily fydd yn mynychu'r cyfarfod. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Suzanne i anfon gwahoddiad i'r hyfforddiant yn nes at yr amser.</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:</p> <p>Hanner tymor i'w gadarnhau.</p>	
	<p>Daeth y cyfarfod i ben am 18:30</p>	